Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P.

Campws Cymuned Garth Olwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **(01443) 57 00 57**
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Mawrth 2018

Annwyl Ddisgybl/Gyn-ddisgybl,

Seremoni Wobrwyo 2018.
28ain o Fawrth, 2018, 5:00yh – 6:00yh.

Ar Ddydd Mercher, 28ain o Fawrth, cynhelir seremoni wobrwyo i gyflwyno tystysgrifau arholiadau Lefel Mynediad, TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â gwobrwyon eraill, i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg. Bydd y seremoni yn dechrau am 5:00yh yn y theatr, a chyflwynir y tystysgrifau gan ein gwestai, Mr Vaughan Roderick (Un o Brif Newyddiadurwyr Gwleidyddol Cymreig a chyn-ddisgybl). Gobeithiwn yn fawr y cawn y pleser o'ch cwmni ar y diwrnod arbennig hwn. Bydd yn gyfle i ni ddiolch i chi a'ch llongyfarch am eich gwaith a'ch llwyddiannau. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar ddiwedd y seremoni ac mae croeso i chi wahodd aelodau o'ch teulu i'r achlysur.

Er mwyn hwyluso'r trefniadau, ffoniwch Brif Swyddfa'r ysgol neu gofrestrwch drwy'r cyswllt canlynol http://bit.ly/seremoni2018 neu drwy'r cod QR isod, i nodi a ydych yn bwriadu mynychu'r seremoni, gan nodi eich enw a'r nifer o bobl bydd yn mynychu os gwelwch yn dda. Os na fyddwch yn medru mynychu'r seremoni, cofiwch gasglu eich tystysgrif o'r ysgol o fewn blwyddyn cyn iddi gael ei dychwelyd i'r Bwrdd Arholi priodol.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich gweld,

Yn gywir,

Mr Geraint Lewis
Dirprwy Brifathro